# Awdurdod Parc Cenedlaethol

## 23 Hydref 2024

**Yn bresennol (yn bersonol)**
Cynghorydd D Clements (Cadeirydd)
Dr M Havard, Dr R Heath-Davies, Mrs J James, Cynghorydd M James, Mr GA Jones, Dr R Plummer, Cynghorydd V Thomas, Cynghorydd M Wiggins a'r Cynghorydd C Williams BEM.

**Yn bresennol (o bell)**
Cynghorydd M Bowen, Cynghorydd SL Hancock MBE, Mrs S Hoss, Cynghorydd B Price, Cynghorydd S Skyrme-Blackhall a'r Cynghorydd A Tinley.

Ymunodd y Cynghorydd C George â'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr adroddiad ar Ddynodiad Arfaethedig Ardal Gadwraeth Cei Cresswell (gweler Cofnod 8).

**Hefyd yn bresennol:**
Jason Blewitt ac Isabel Hammond (Archwilio Cymru), Catrin Evans (Pennaeth Cyllid a Chodi Arian), Richard Griffiths (Swyddog Adran 151), Tegryn Jones (Prif Weithredwr), Michael Kent (Swyddog Monitro), Gayle Lister (Prif Swyddog Cynllunio), Linda Jones (Penseiri Babbs), Caroline Llewellyn (Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd), Jessica Morgan (Pennaeth Datgarboneiddio), Sara Morris (Cyfarwyddwr Lle ac Ymgysylltu), James Parkin (Cyfarwyddwr Byd Natur a Thwristiaeth), a Mair Thomas (Swyddog Perfformiad a Chydymffurfiaeth).

[Parc Llanion, Doc Penfro ac o Bell
10.00am – 11.45am; 12.00pm – 12:50pm]

### 1. Ymddiheuriadau am absenoldeb
Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd T Evans.

### 2. Datgan Buddiannau
Gwnaeth Dr R Plummer ddatganiad cyffredinol fel Aelod o Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru ac fel Cadeirydd ei Bwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig. Gwnaeth y Cynghorwyr M Wiggins a V Thomas ddatganiadau mewn perthynas ag adroddiad 39/24, Dynodiad Arfaethedig Ardal Gadwraeth Cei Cresswell. Datganodd y Cynghorwyr M James a C Williams fuddiant yn adroddiad 45/24, Cais Codi Arian yr RNLI.

### 3. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Medi 2024 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

Ar gynnig y Cynghorydd D Clements, a eiliwyd gan Dr M Havard, **penderfynwyd** cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Medi 2024 a'u llofnodi heb unrhyw ddiwygiadau.

**4. Log Gweithredu a Materion yn Codi**

Cafwyd diweddariad ar yr Adolygiad Cyflogau a Graddfeydd gan y Prif Weithredwr a amlinellodd y camau a gymerwyd eisoes a'r camau nesaf. Ychwanegodd nad oedd y costau ar gael eto, ond y rhagwelir na fydd newid yn y costau a amlinellwyd yn flaenorol, ac nad oedd yn or-bryderus am gyllideb y flwyddyn sydd i ddod.

**Nodwyd.**

**5. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**

Dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi mynychu'r cyfarfodydd a'r digwyddiadau canlynol;

- Panel Perfformiad Prif Weithredwr yr Awdurdod.
- Diwrnod Astudio yn Sain Ffraid (safle sy'n eiddo i'r Awdurdod).
- Cyfarfod cydbwyllgor corfforaethol lle penodwyd bwrdd ymgynghorol y sector preifat, a thrafodwyd materion megis Gweithdy'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol.

Dywedwyd bod Cynhadledd Parciau Cenedlaethol y DU wedi'i chynnal yn ddiweddar a bod Mrs S Hoss a Dr R Heath-Davies wedi mynychu fel cynrychiolwyr yr Awdurdod. Yn dilyn gwahoddiad gan y Cadeirydd, rhannodd y ddau Aelod eu profiadau o'r Gynhadledd.

Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i longyfarch Mike Higgins, Prif Swyddog Cynllunio yr Awdurdod (yr Amgylchedd), oedd wedi ennill Medal Goffa Richard Fitter gan Gymdeithas Naturiaethwyr Prydain. Hefyd dywedodd bod ymateb wedi dod i law oddi wrth yr Archwilydd Cyffredinol i'w llythyr ar adroddiad Llywodraethu Archwilio Cymru. Roedd yr ymateb hwn wedi'i ddosbarthu i'r Aelodau. Er bod yr ymateb yn siomedig, ni fyddai unrhyw gamau pellach yn cael eu cymryd ar hyn o bryd.

**Nodwyd.**

**6. Adroddiadau o gyfarfodydd amrywiol Bwyllgorau'r Awdurdod**

Cyflwynwyd yr adroddiadau canlynol o gyfarfodydd nifer o Bwyllgorau'r Awdurdod i'r Aelodau er ystyriaeth/ gwybodaeth:

(i) Y Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 04/09/2024;
(ii) Y Pwyllgor Ieuenctid a gynhaliwyd ar 17/09/2024.

**Penderfynwyd** mabwysiadu/ derbyn cofnodion y Pwyllgorau uchod.

**7. Adroddiad ar Archwilio'r Cyfrifon**

Croesawodd y Cadeirydd y Pennaeth Cyllid a Chodi Arian, a Jason Blewitt (Archwilio Cymru) a gyflwynodd adroddiad oedd yn crynhoi prif ganfyddiadau'r Archwiliad o Gyfrifon yr Awdurdod 2023/24. Nodwyd bod crynodeb o'r diwygiadau a wnaed i'r cyfrifon drafft o ganlyniad i'r archwiliad wedi ei gofnodi yn atodiad 1 i'r adroddiad. Cyflwynodd Jason Blewitt ganfyddiadau allweddol yr adroddiad a chadarnhaodd bod Archwilio Cymru mewn sefyllfa i roi barn ddiamod ar gyfrifon yr Awdurdod oedd yn berthnasol gywir.

Fel rhan o'r archwiliad, dywedwyd bod Archwilio Cymru yn cydnabod bod yr Awdurdod yn sefydliad bach gyda chapasiti cyfyngedig, ond clustnodwyd bod mwy o wallau nag a ddisgwylid fel arfer gan sefydliad o faint tebyg. Ychwanegwyd bod y gwallau a glustnodwyd naill ai wedi arwain at newidiadau i'r cyfrifon a/neu angen i Archwilio Cymru wneud gwaith archwilio ychwanegol a phrofi sampl estynedig. Cadarnhaodd Jason, o ganlyniad i'r gwallau a glustnodwyd, bod Pennaeth Cyllid a Chodi Arian yr Awdurdod yn bwriadu rhoi newidiadau ar waith i gryfhau'r prosesau perthnasol yn y dyfodol. Amlygodd y Pennaeth Cyllid a Chodi Arian enghreifftiau o welliannau, a rhoi cipolwg i'r Aelodau o heriau'r broses archwilio. Cadarnhawyd bod adnoddau ychwanegol wedi'u clustnodi i'r tîm cyllid i gynorthwyo'r broses archwilio yn y dyfodol. Cefnogodd y Swyddog Adran 151 y Pennaeth Cyllid a Chodi Arian, a mynegodd ei hyder y byddai'r tîm yn cyflawni'r hyn a ddisgwylid wrth symud ymlaen.

Amlygodd yr Aelodau nad oedd y Cyfrifon Drafft wedi'u cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio y tro hwn. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod hyn o ganlyniad i wrthdaro yn yr amserlenni, ond nodwyd y sylwadau.

Mewn ymateb i ymholiad gan yr Aelodau, cadarnhaodd Jason y byddai'r Awdurdod yn debygol o wynebu costau ychwanegol am y gwaith archwilio ychwanegol a gyflawnwyd, ond nid oedd y ffigwr wedi'i benderfynu'n derfynol eto.

Ar gynnig Dr S Hancock MBE, a eiliwyd gan Mrs J James, **penderfynwyd**:

i) bod yr Aelodau yn derbyn yr adroddiad ar yr Archwiliad o Gyfrifon (Atodiad 2) a bod y llythyr cynrychiolaeth at yr Archwilydd Cyffredinol yn cael ei gymeradwyo,
ii) cymeradwyo'r Adroddiad Naratif Blynyddol, y Datganiad o Gyfrifon 2023-24 a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (Atodiad 3).

## 8 . Dynodiad Arfaethedig Ardal Gadwraeth Cei Cresswell

Croesawodd y Cadeirydd Gayle Lister, y Prif Swyddog Cynllunio, a Linda Jones (Babb Architects) a gyflwynodd adroddiad oedd yn gofyn am gymeradwyaeth i ddynodi Ardal Gadwraeth o fewn Cei Cresswell. Hefyd roedd yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth i gyhoeddi hysbysiad statudol yn y papur newydd lleol ac yn y London Gazette, ac i gyhoeddi'r Adroddiad Ymgynghori, fel y gwelir yn Atodiad C.

Dywedwyd bod yr Awdurdod Parc Cenedlaethol wedi cytuno i gynnal ymgynghoriad ac ymgysylltu ar gyfer dynodi Ardal Gadwraeth yng Nghei Cresswell ar y 24ain o Orffennaf 2024. Cadarnhaodd y swyddogion bod yr ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i gynnal dros gyfnod o wyth wythnos rhwng 30 Gorffennaf a 30 Medi 2024. Dywedwyd bod cyfanswm o 17 o ymatebion i'r ymgynghoriad wedi dod i law oedd yn cefnogi'r cynnig. Ychwanegwyd nad oedd unrhyw wrthwynebiad i'r dynodiad arfaethedig.

Roedd yr adroddiad yn egluro, o ganlyniad i'r ymgysylltu a'r ymgynghori, bod y cynnig wedi'i ddiwygio i gynnwys ardal ychwanegol o goetir ar lan ogleddol yr aber. Roedd diweddariad ffeithiol hefyd wedi'i wneud i'r map i ddangos adeilad rhestredig gerllaw'r dafarn. Rhoddodd Linda Jones gyflwyniad i'r Aelodau oedd yn amlinellu'r Ardal Gadwraeth arfaethedig. Roedd y cyflwyniad yn cynnwys mapiau oedd yn dangos y ffin arfaethedig a lluniau oedd yn amlygu rhinweddau arbennig yr ardal. Dywedwyd bod Arfarniad o Ardal Gadwraeth a Chynllun Rheoli drafft yn cael eu paratoi ar hyn o bryd, a rhagwelwyd y byddai'r rhain yn cael eu cyflwyno gerbron yr Awdurdod ddechrau 2025.

Roedd yr Aelodau yn falch bod cefnogaeth drwyddi draw i ddynodi'r ardal yn Ardal Gadwraeth. Dywedodd un Aelod y byddai hyn yn golygu goblygiadau i faterion megis caniatâd cynllunio, a gofynnodd i'r Swyddogion a oedd y goblygiadau hyn wedi'u cyfleu i'r cyhoedd fel rhan o'r ymgynghoriad. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Lle ac Ymgysylltu bod llythyrau wedi'u dosbarthu fel rhan o'r ymgynghoriad i bob eiddo yn yr ardal gadwraeth arfaethedig oedd yn amlinellu'r holl oblygiadau posibl. Nododd yr Aelod hefyd rai gwallau teipio yn y fersiwn Gymraeg o'r hysbysiad cyhoeddus oedd ynghlwm i'r adroddiad.

Ar gynnig Dr M Havard, a eiliwyd gan Dr Plummer, **penderfynwyd**;

i) bod Cei Cresswell yn cael ei ddynodi yn Ardal Gadwraeth, fel y nodir ar y map oedd ynghlwm i'r adroddiad yn Atodiad A a bod hysbysiad statudol yn cael ei gyhoeddi yn y wasg leol ac yn y London Gazette (gweler Atodiad B).

ii) cymeradwyo cyhoeddi'r Adroddiad Ymgynghori (gweler Atodiad C).

iii) rhoi awdurdod dirprwyedig i Brif Weithredwr yr Awdurdod i gywiro'r gwallau teipio yn y fersiwn Gymraeg o'r hysbysiad cyhoeddus cyn ei gyhoeddi.

[Nid oedd Mrs S Hoss yn bresennol ar gyfer yr eitemau oedd yn weddill.]

**9 . Cynllun Dirprwyo**

Croesawodd y Cadeirydd y Cyfarwyddwr Lle ac Ymgysylltu a'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a gyflwynodd adroddiad oedd yn cynnig mân ddiwygiadau i Gynllun Dirprwyo yr Awdurdod mewn perthynas â Rheoli Datblygu. Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r diwygiadau arfaethedig ac yn egluro y byddai'r diwygiadau hyn yn symleiddio’r prosesau ac yn rhoi eglurhad ychwanegol.

Nododd yr Aelodau bod manylion y dirprwyo ariannol o fewn yr Awdurdod wedi'u hepgor o'r ddogfen, ac awgrymwyd bod cyfeiriad yn cael ei gynnwys ynghyd â dolenni cyswllt i’r polisïau perthnasol. Nodwyd hyn gan y Swyddog.

Ar gynnig Dr R Plummer, a eiliwyd gan Dr R Heath-Davies, **penderfynwyd** diwygio’r cynllun dirprwyo fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad a’i nodi’n llawn yn Atodiad 1.

[Gohiriwyd y cyfarfod rhwng 11.45am a 12.00pm.]

**10. Polisi a Strategaeth Caffael Cynaliadwy sy'n Gymdeithasol Gyfrifol**

Croesawodd y Cadeirydd y Pennaeth Datgarboneiddio a gyflwynodd adroddiad oedd yn ceisio cymeradwyaeth ffurfiol i Bolisi a Strategaeth Caffael Cynaliadwy yr Awdurdod sy’n Gymdeithasol Gyfrifol (2024-2029). Roedd yr adroddiad yn egluro bod Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 wedi cyflwyno dyletswydd caffael cymdeithasol gyfrifol oedd yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod contractio osod a chyhoeddi amcanion caffael sy’n gymdeithasol gyfrifol gyda’r nod o gynyddu ei gyfraniad at gyflawni’r nodau llesiant a pharatoi strategaeth cysylltiedig. Roedd yr adroddiad yn cynnwys rhagor o wybodaeth gefndir ac yn amlygu’r newidiadau allweddol i'r polisi.

Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod, cadarnhaodd y Swyddog bod yr Awdurdod, drwy'r polisi arfaethedig, yn anelu at barhau i gefnogi busnesau lleol ac ymrwymo i’r agweddau cymdeithasol a chynaliadwy o dendro. Ychwanegwyd, fel rhan o gynllun gweithredu yr Awdurdod sy’n ymwneud â chaffael, y byddai adran ar gael ar y wefan i helpu i arwain busnesau bach drwy'r broses gaffael, a hefyd, byddai fframwaith yn cael ei ddatblygu i ymgysylltu yn ymarferol â busnesau bach. Cytunodd yr Aelodau na ddylid diystyru effaith ariannol caffael cyhoeddus, ond nodwyd ei bod yn bwysig pwysleisio bod cystadleuaeth deg ac agored yn golygu ymgysylltu â chyflenwyr mawr a bach.

Roedd yr Aelodau yn cydnabod natur arbenigol y diwydiant caffael, a gofynnwyd i'r Swyddog a fyddai'r Awdurdod yn ystyried mynd at Arbenigwr am gymorth gan nad oedd gan yr Awdurdod yr arbenigedd hwn yn fewnol. Cadarnhaodd y Swyddog y byddai Arbenigwr Caffael yn

cael ei gyflogi i gynorthwyo’r hyfforddiant, drafftio templedi a fframwaith fyddai o gymorth i’r Awdurdod gydymffurfio â’r ddeddfwriaeth. Cydnabuwyd y byddai cost i hyn.

Ar gynnig Dr R Plummer, a eiliwyd gan Dr M Havard, **penderfynwyd** cymeradwyo'r Polisi a Strategaeth Caffael Cynaliadwy sy'n Gymdeithasol Gyfrifol.

**11. Polisi Ecwiti, Amrywiaeth a Chynhwysiant**

Croesawodd y Cadeirydd y Swyddog Perfformiad a Chydymffurfiaeth a gyflwynodd adroddiad oedd yn ceisio cymeradwyaeth yr Aelodau i'r Polisi Ecwiti, Amrywiaeth a Chynhwysiant, y cyfeiriwyd ato yn flaenorol fel y Polisi Cyfle Cyfartal. Roedd yr adroddiad yn nodi bod y polisi wedi'i gyflwyno ddiwethaf i’r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn 2019 a'i ddiweddaru ddiwethaf yn 2020. Roedd yr adroddiad yn amlinellu nodau'r polisi a'r diweddariadau allweddol.

Dywedodd Aelod y byddai Deddf Aflonyddu Rhywiol newydd yn dod i rym ddiwedd y mis oedd yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr gymryd camau rhesymol i atal aflonyddu rhywiol ar eu gweithwyr. Gofynnodd yr Aelod a fyddai cyfeiriad yn cael ei ychwanegu at y polisi arfaethedig o ganlyniad. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Swyddog y byddai datganiad yn cael ei ychwanegu at y polisi yn cadarnhau'r ddyletswydd ataliol hon ar yr Awdurdod ac yn datgan y byddai angen cynnal asesiad risg perthnasol.

Ar gynnig Mrs J James, a eiliwyd gan Dr R Plummer, **penderfynwyd** cymeradwyo'r Polisi Ecwiti, Amrywiaeth a Chynhwysiant, yn amodol ar gynnwys cyfeiriad at atal aflonyddu rhywiol o dan y Ddeddf Diogelu Gweithwyr.

**12. Polisi Rheoli a Chadw Cofnodion**

Cyflwynodd y Swyddog Perfformiad a Chydymffurfiaeth adroddiad oedd yn ceisio cymeradwyaeth yr Aelodau i'r Polisi Rheoli a Chadw Cofnodion. Dywedwyd bod yr Awdurdod wedi bod yn cynnal gweithgareddau i wella’r drefn o reoli cofnodion, ac o ganlyniad, gwelwyd bod angen polisi newydd, yn canolbwyntio ar reoli a chadw cofnodion. Roedd yr adroddiad yn egluro bod y Swyddogion, o'r gweithgareddau rheoli cofnodion, yn cydnabod yr angen i gryfhau atebolrwydd o ran rolau a chyfrifoldebau.

Amlygodd Aelod nad oedd cyfeiriad yn y polisi at y cyfnodau cadw sy'n ymwneud â dogfennau ariannol, ac awgrymwyd bod datganiad i'r perwyl hwnnw yn cael ei ychwanegu. Nodwyd yr awgrym hwn gan y Swyddog.

Ar gynnig Dr R Plummer, a eiliwyd gan y Cynghorydd S Hancock, **penderfynwyd** cymeradwyo'r Polisi Rheoli a Chadw Cofnodion, gan ychwanegu cyfeiriad at gyfnodau cadw dogfennau ariannol.

**13. Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2025/26**

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd adroddiad oedd yn amlinellu Adroddiad Blynyddol drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ynglŷn â'r lefel arfaethedig o gyflogau Aelodau yn 2025/26, a gofynnodd am farn yr Aelodau ar y mater. Roedd yr adroddiad yn rhoi manylion cefndir ac yn amlygu canfyddiadau allweddol yr Adroddiad Blynyddol Drafft.

Manteisiodd Aelod ar y cyfle i amlygu bod ystyriaethau teithio Aelodau a Benodir gan Lywodraeth Cymru yn cael eu trethu'n wahanol i'r Aelodau a Benodir gan Gyngor Sir Penfro. Dywedodd y Cadeirydd, er bod y mater wedi'i godi'n flaenorol gyda'r partïon perthnasol, ei bod yn cytuno i ysgrifennu llythyr ffurfiol i godi'r mater unwaith yn rhagor.

Ar gynnig Dr R Plummer, a eiliwyd gan y Cynghorydd M James, **penderfynwyd** cyflwyno'r ymateb i Adroddiad Blynyddol drafft y Panel ar Gydnabyddiaeth Ariannol heb unrhyw newid pellach ac eithrio i ddiolch i'r Panel am ei waith.

**14. Cais Codi Arian yr RNLI**

Croesawodd y Cadeirydd y Cyfarwyddwr Byd Natur a Thwristiaeth a gyflwynodd adroddiad oedd yn ceisio cymeradwyaeth yr Aelodau i'r RNLI godi arian ar chwech o draethau a reolir gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol tan fis Rhagfyr 2029.

Roedd yr adroddiad yn manylu bod Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn gyfrifol am ran sylweddol o'r arfordir ac o ganlyniad, bod angen caniatâd ffurfiol yr Awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer y rhan fwyaf o weithgareddau a drefnir ar y traeth yn Sir Benfro. Roedd yr adroddiad yn egluro bod yr RNLI, ers 2008, wedi cael caniatâd i gael presenoldeb i gyflwyno gwybodaeth a chodi arian ar rai traethau, a'u bod unwaith eto yn ceisio caniatâd i barhau â'u gweithgareddau codi arian.

Nodwyd bod gweithgareddau codi arian yr RNLI yn digwydd ar nifer cyfyngedig o draethau gan gynnwys Niwgwl, Aber Llydan, Traeth Nolton, Traeth Mawr, Traeth Trefdraeth a Thraeth Poppit. Gofynnodd Aelod sut oedd y traethau hyn wedi'u dewis, ac mewn ymateb, cadarnhawyd mai ffactorau megis perchnogaeth, nifer yr ymwelwyr, risgiau cysylltiedig, statws baner las a phresenoldeb achubwyr bywydau oedd yn gyfrifol am y dewis.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â lefel llwyddiant ac effaith yr RNLI, a chytunodd y Cyfarwyddwr Byd Natur a Thwristiaeth i gyflwyno adroddiad blynyddol ar y mater hwn i'r Pwyllgor Adolygu Gweithredol.

Ar gynnig y Cynghorydd S Skyrme-Blackhall, a eiliwyd gan y Cynghorydd V Thomas, **penderfynwyd** rhoi caniatâd i weithgareddau codi arian yr RNLI barhau am 5 mlynedd arall (hyd at fis Rhagfyr 2029) gyda'r amodau canlynol:

i) Bod gweithgareddau codi arian yr RNLI yn cael eu cyfyngu i 28 diwrnod, bob blwyddyn ar unrhyw safle unigol.
ii) Bod yr holl lenyddiaeth hyrwyddo a diogelwch a ddarperir gan yr RNLI yn ddwyieithog.

**15. Aelodaeth y Pwyllgorau Disgyblu, Cwynion ac Apeliadau**

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd adroddiad oedd yn ceisio cadarnhau Aelodaeth y pwyllgorau canlynol: Ymchwilio a Disgyblu, Cwynion, ac Apeliadau. Eglurwyd y gellid sefydlu cyfansoddiad y pwyllgorau uchod ar hyn o bryd gan fod Cadeiryddion a Dirprwy Gadeiryddion yr Awdurdod a'r pwyllgorau perthnasol eraill bellach wedi'u penodi. Roedd yr adroddiad yn cynnwys cyfansoddiad a awgrymwyd ar gyfer pob pwyllgor.

Dywedodd y Swyddog bod Mrs J James, cyn y cyfarfod, wedi gwneud cais i gyfnewid aelodaeth o'r Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu, ac felly awgrymwyd bod Mrs J James yn cyfnewid gyda Mr GA Jones oedd yn aelod o'r Pwyllgor Apeliadau. Roedd y ddau Aelod wedi cytuno â'r awgrym.

Ar gynnig y Cynghorydd D Clements, a eiliwyd gan y Cynghorydd M Wiggins, **penderfynwyd** yn amodol ar y cyfnewid a nodir uchod, cadarnhau aelodaeth y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu, y Pwyllgor Cwynion a'r Pwyllgor Apeliadau fel y nodwyd yn yr adroddiad.

| |
|---|
| Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o'r Awdurdod Parc Cenedlaethol a gynhaliwyd ar 11 Rhagfyr 2024 heb eu diwygio. |